Office of Telecommunications
50 Ludgate Hill, London EC4M 7JJ
http://www.oftel.gov.uk
Ar gyfer ymholiadau'r wasg yn unig: Ffôn 020 7634 8750/1/2/3/5/6
Ffacs 020 7634 8842
e-bost press.office.oftel@gtnet.gov.uk
Ar gyfer pob ymholiad arall: Ffôn 020 7634 8700

Datganiad i'r Wasg

Cyf: 18/02
Dyddiad: 4 Ebrill 2002

OFTEL YN ANNOG DEFNYDDWYR I ARBED ARIAN WRTH DDEFNYDDIO FFONAU SYMUDOL DRAMOR

Yn ôl ymchwil newydd a gyhoeddwyd heddiw gan Oftel, mae llawer o ddefnyddwyr yn parhau i fod yn anwybodus ynghylch y gost o ddefnyddio eu ffôn symudol dramor.

Prif ganfyddiadau'r ymchwil a gynhaliwyd gan Oftel ynghyd â rheolydd ODTR Gweriniaeth Iwerddon yw:

- mae bron hanner defnyddwyr ffôn symudol talu ymlaen llaw yn y DG heb fod yn gwybod y gellir codi tâl arnynt am alwadau sy'n dod i mewn – hyd at £1.50 y funud – wrth ddefnyddio eu ffôn dramor;

- mae dros 80 y cant o ddefnyddwyr o'r farn nad yw'r prisiau am ddefnyddio eu ffôn symudol dramor yn werth yr arian; ac

- llai na hanner y defnyddwyr sydd wedi ceisio gostwng eu bil ffôn symudol pan fyddant dramor, er enghraifft drwy ddefnyddio negeseuon testun neu drwy newid o wasanaeth talu ymlaen llaw i wasanaeth ôl-dalu, er ei bod yn bosibl arbed ymhell dros 50 y cant.

Dywedodd David Edmonds, Cyfarwyddwr Cyffredinol Telegyfathrebu:

"Byddai'r rhan fwyaf o bobl fwy na thebyg yn disgwyl talu ychydig yn fwy am ddefnyddio eu ffôn symudol dramor. Ond yr hyn mae'r ymchwil yn ei ddangos yw mai ychydig o bobl sy'n ymwybodol o faint yn fwy y gallai gostio. Neu y gallent arbed arian drwy gymryd rhai camau syml.

"Er enghraifft, dengys ein hymchwil ar y cyd ag ODTR y gallai ymwelwyr o'r DG â Gweriniaeth Iwerddon arbed dros 50 y cant o'u costau ffôn teithiol drwy newid o bris talu ymlaen llaw i bris contract, er y bydd yr arbedion yn dibynnu ar ddefnydd y defnyddwyr unigol o'u ffonau symudol

“Ar gyfer teithwyr rheolaidd, gall prynu cerdyn SIM Iwerddon i’w ddefnyddio tra yn Iwerddon arbed hyd at 50 y cant ar gostau ffôn teithiol i gwsmeriaid sydd â chontract neu hyd at 70 y cant i gwsmeriaid sy’n talu ymlaen llaw.

“Mae dewis rhwydwaith ffôn teithiol arall yn Iwerddon yn opsiwn arall: gall y gwahaniaeth rhwng y rhwydwaith rhataf a’r drutaf fod hyd at 18 y cant.”

Dywedodd David Edmonds bod Oftel wedi cyhoeddi cyngor ar sut y gall defnyddwyr leihau eu bil ffôn wrth ddefnyddio eu ffôn symudol dramor:

“Ni waeth i ble yr ewch, efallai fod yna ffyrdd o arbed arian tra byddwch yn defnyddio eich ffôn dramor.

“Meddyliwch ddwywaith cyn gwneud galwad os gallwch anfon neges gyflym yn ei lle. Mae anfon neges testun yn rhatach na gwneud galwad un funud – ac ni chodir tâl ar ddefnyddwyr am dderbyn negeseuon testun pan fyddant dramor.

“Meddyliwch am newid o dalu ymlaen llaw i gontract. Os ydych yn teithio’n rheolaidd, gall yr arian y byddwch yn ei arbed trwy wneud galwadau rhatach hyd yn oed dalu am y gost o rentu’r llinell ffôn.

“Gwiriwch gyda’ch rhwydwaith i weld a yw’n cynnig gwasanaeth i deithwyr rhyngwladol, sy’n rhoi galwadau rhatach i chi dramor am rentu llinell ychwanegol a gall gynnig bargen dda i’r rhai sy’n defnyddio’r ffôn yn aml iawn.

“A chyn i chi deithio, gwiriwch gyda’ch rhwydwaith fel eich bod yn gwybod yn union faint o dâl a godir arnoch am ddefnyddio eich ffôn.

Gan wneud sylwadau ar y cyd-broject â rheolydd ODTR Iwerddon, dywedodd David Edmonds:

“Mae Oftel wedi cydweithio gyda rheolydd Iwerddon, ODTR, ac mae’n bleser gennyf weld cychwyn perthynas weithio a fydd yn dod â manteision i’r ddau reolydd yn y dyfodol.

“Dyma enghraifft o’r math o gydweithio a fydd yn dod yn gynyddol bwysig o dan y Cyfarwyddiaethau Ewropeaidd newydd.

“Bydd ODTR yn cyhoeddi ymchwil a chyngor i ddefnyddwyr yng Ngweriniaeth Iwerddon.”

Nodiadau i olygyddion

1 Cyhoeddir *Mobile international roaming research reports* ar wefan Oftel yn www.oftel.gov.uk/publications/research/2002/odtr0402.htm. Cyhoeddir *Getting the best deal when using your mobile phone abroad* ar wefan Oftel yn www.oftel.gov.uk/publications/mobile/2002/roam0402.htm. Mae copïau papur ar gael i’r wasg gan Swyddfa’r Wasg Oftel ar 020 7634 8991 ac i’r cyhoedd o Uned Ymchwil a Gwybodaeth Oftel ar 020 7634 8761.

2. Mae ODTR wedi cyhoeddi adroddiad ar wahân i'r farchnad yn Iwerddon y gellir dod o hyd iddo yn www.odtr.ie.

3. Ni fwriedir i'r adroddiadau a gyhoeddir heddiw fod yn adroddiad ar ansawdd y gwasanaeth ac ni ddylid edrych arno fel canllaw a argymhellir i brynwyr gwasanaethau ffôn symudol yn y DG ac Iwerddon. Ni ddylid edrych ar unrhyw gyfeiriadaeth at gwmni fel pe bai'n cymeradwyo'r cwmni hwnnw neu'r gwasanaethau y mae'n eu darparu.

4. Ar 11 Gorffennaf 2001, cynhaliodd arolygwyr y Comisiwn Ewropeaidd a swyddogion yr awdurdodau cystadleuaeth cenedlaethol arolygiadau heb eu cyhoeddi ymlaen llaw mewn adeiladau naw o gysylltyddion ffôn symudol Ewropeaidd ar yr un pryd yn y DG a'r Almaen.

Roedd yr arolygiadau hyn yn rhan o'r dilyniant i'r ymchwiliad ledled sector yr UE i ffonau symudol teithiol a lansiwyd gan y Comisiwn ym mis Ionawr 2000.

Nododd y Comisiwn bod pryderon difrifol ynglŷn â chystadleuaeth o ran arferion prisio ar gyfer ffonau symudol teithiol sy'n gwarantu ymchwiliadau pellach, yn benodol yn y DG a'r Almaen.